EISTEDDFOD 2025

## 157. GWOBR GOFFA ALED LLOYD DAVIES (2)

# Gwerinwr

Rhowch barch i'r gwerinwr lle bynnag y bo
Sydd er ei drafferthion yn ffyddlon i'w fro,
Yr hwn a wrthododd ymddiried i ffawd
Na dewis ymfudo i wella ei rawd,
Mae'n rhan o fyd Natur – a'r ddau mor gytûn
Nes myned o'i hanian i'w enaid ei hun.

Mae hen ddiarhebion yn felys i'w glyw
A byddant ddiogel tra deil ef yn fyw,
Wrth weld yr idiomau yn myned yn llai
Deil yntau i'w gwarchod er gwaethaf y trai,
A rhan o'r dreftadaeth a gafodd yn rhad
Oedd stôr o ddoethineb hen werin ei wlad.

Os caled ei lafur i wella ei ffridd
A phrin y cynhaeaf gan waeled y pridd,
Yn wyneb pob siom gyda'r gweiriau a'r ŷd
O flwyddyn i flwyddyn deil ati o hyd,
Gan ddyfal wrteithio a noddi y tir,
Y libart grintachlyd a garodd mor hir.

Fe welodd gau'r ysgol a'r capel bach llwm
A gwelodd gymdogion yn gadael y cwm,
Ond sefyll wna'n gadarn heb golli ei rin
Yn wyneb mewnfudwyr a groesodd y ffin;
Am herio'r llifeiriant sy'n bygwth ers tro
Rhown glod i'r gwerinwr sy'n gwarchod ei fro.

**IORWERTH H LLOYD**